

## EAL Diploma NVQ mewn Perfformio Gweithrediadau Gweithgynhyrchu Lefel 3



### Yn gwyno

Datblygwyd y cymhwyster hwn i alluogi dysgwyr i ddangos cymhwysedd yn eu galwedigaeth gweithgynhyrchu. Mae'r cymhwyster yn berthnasol i amrywiaeth eang o alwedigaethau gweithgynhyrchu yn y sector, yn dibynnu ar y llwybr a ddewiswyd.

### Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

Mae'r cymhwyster wedi'i ddylunio gan ddiwydiant ar gyfer unigolion sy'n ymwneud â phroses weithgynhyrchu beth bynnag fo'r sector. Fel arfer, gall dysgwyr fod yn gyfrifol am redeg offer o ddydd i ddydd ac am ansawdd gwaith. Maent hefyd yn gallu monitro a rheoli offer ac ansawdd a gallant hefyd arfer rhywfaint o farn a gwneud penderfyniadau am y broses weithgynhyrchu.

### Cynnwys y cwrs

Mae hwn yn gymhwyster galwedigaethol cenedlaethol (NVQ). Mae'n cynnwys y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer galwedigaethau yn y maes gweithgynhyrchu, gan



## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

gynnwys y gallu i drefnu gwaith a nodi ac atal problemau.

Rhaid i'r dysgwr gyflwyno tystiolaeth (wedi'i chofnodi mewn portffolio) sy'n dangos yn glir ei fod wedi bodloni meini prawf asesu a deilliannau dysgu'r unedau a ddewiswyd.

Rhaid i'r dysgwr gyflawni'r unedau gorfodol a dewisol sy'n berthnasol i'w llwybr a'i rôl alwedigaethol.

### Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn, fodd bynnag, bydd y cymhwyster yn cael ei farnu'n rhannol ar asesiadau a arsylwyd yn y gweithle felly mae'n rhaid i ddysgwyr weithio mewn amgylchedd gweithgynhyrchu.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Cyflwynir y cymhwyster hwn yn y gweithle ac nid ar gampws i unigolion ei fynychu. Cytunir ar ddyddiadau darparu ymlaen llaw gydachia'ch cyflogwr.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys 6 uned. Gall gymryd rhwng 6 a 14 mis i'w gwblhau. Gall dysgwyr ei gwblhau yn ôl eu pwysau eu hunain ond bydd ein tîm o aseswyr yn rhoi cynllun cychwyn nol ar waith i gwblhau uned bob mis ac mae'n bosib ei gwblhau'n gynt. Bydd dyfynbris ffurfiol yn cael ei baratoi unwaith y byddwn yn deall eich anghenion hyfforddiond, fel canllaw rydym yn codi £500 y person yng hydâffioedd cofrestru cyrff dyfarnu ychwanegol (tua £80).

Apply online at [www.colegwent.ac.uk](http://www.colegwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

